

Cau atodyn atrïaidd chwith y galon drwy lawdriniaeth twll clo i atal pobl sydd â ffibriliad atrïaidd nad yw'n ymwneud â'r falfiau rhag cael strôc

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir trin ffibriliad atrïaidd nad yw'n ymwneud â'r falfiau drwy ddefnyddio llawdriniaeth twll clo i gau atodyn atrïaidd chwith y galon er mwyn atal strôc yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio ffibriliad atrïaidd na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am

eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.



Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg am ddefnyddio llawdriniaeth twll clo i gau atodyn atrïaidd chwith y galon ynghyd ag abladiad llawfeddygol ar gyfer ffibriliad atrïaidd, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd ynglŷn â'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd sy'n dweud pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw pan gaiff ei defnyddio ar ei phen ei hun. Am y rhesymau hyn, mae NICE wedi dweud mai dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni. Dylai'r gwaith ymchwil helpu i benderfynu pa gleifion a ddylai gael y driniaeth hon, ac edrych ar rythm y galon ar ôl y driniaeth a chofnodi unrhyw farwolaethau a phroblemau byrdymor neu hirdymor, yn benodol strôc.

Dylai tîm gofal iechyd arbenigol benderfynu i ba gleifion y dylid cynnig y driniaeth hon. Dylai'r tîm gynnwys llawfeddyg y galon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sydd â phrofiad o reoli ffibriliad atrïaidd mewn cleifion sydd â risg o gael strôc. Dylid ystyried triniaethau eraill i leihau'r risg o strôc a'u trafod gyda'r cleifion. Dim ond llawfeddygon cardiaidd sydd â phrofiad o lawdriniaeth twll clo y frest (thoracosgopig) a hyfforddiant penodol yn y driniaeth hon a ddylai gyflawni'r driniaeth.

*Efallai nad hon fydd
yr unig driniaeth
bosibl ar gyfer
ffibriliad atrïaidd.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha
driniaethau eraill
sydd ar gael.*

Llawdriniaeth twll clo i gau atodyn atrïaidd chwith y galon

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'cau'r atodyn atrïaidd chwith yn thoracosgopig'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae ffibriliad atrïaidd yn digwydd pan fydd dwy siambr uchaf y galon (atria) yn curo mewn ffordd afreolaidd a chyflym. Mae pobl sydd â ffibriliad atrïaidd yn wynebu mwy o risg y bydd torthenni gwaed yn ffurfio ar y galon. Gall y torthenni gwaed hyn ffurfio yn yr atodyn atrïaidd chwith (sach fach oddi ar yr atriwm chwith) ac achosi strôc drwy deithio o'r atodyn atrïaidd chwith a rhwystro pibell waed yn yr ymennydd.

Rhoddir meddyginiaethau i deneuo'r gwaed yn aml er mwyn lleihau'r risg o strôc. Gall llawdriniaeth i osod dyfais arbennig sy'n rhwystro'r atodyn atrïaidd chwith fod yn opsiwn arall o ran triniaeth.

Fel arfer caiff y driniaeth hon ei chyflawni gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol ac yn aml ynghyd â thriniaeth radioamledd neu abladiad microdon i drin ffibriliad atrïaidd. Gwneir toriadau bach yn wal y frest a gosodir camera a chyfarpar drwyddynt. Fel arfer gadewir yr aer allan o'r ysgyfaint dde i roi mynediad ac yna caiff yr atodyn atrïaidd chwith ei gau, fel arfer gyda styffylau. Efallai y caiff y frest ei draenio er mwyn cael gwared ar hylif hyd nes y caiff yr ysgyfaint ei ailehangu.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi ynghyd ag abladiad llawfeddygol ar gyfer ffibriliad atrïaidd, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cynnal y driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y llawdriniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i'w thrafod gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich meddyg gynnig y driniaeth hon i chi. Argymhellodd NICE y dylid casglu rhai manylion am bob claf sy'n cael y driniaeth hon ar ei phen ei hun yn y DU. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion eich triniaeth yn y modd hwn.

Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.

Crynodeb o'r manteision a'r risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwe astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 100 o gleifion a gafodd eu trin ag abladiad radioamledd, y cafodd 85 ohonynt hefyd, driniaeth i gau'r atodyn atrïaidd chwith, cafodd dau glaf strôc a chafodd dau bwl o isgemia dros dro (math o strôc fach), a hynny ymysg 88 o gleifion a gafodd eu monitro am ddwy flynedd.

Nododd astudiaeth o 15 o gleifion a gafodd eu trin â'r driniaeth ar ei phen ei hun fod un claf wedi cael strôc angheuol 55 mis ar ôl y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nod y driniaeth yw cau a gwella'r atodyn atrïaidd chwith yn llawn, ac atal torthenni gwaed rhag cylchredeg yn y gwaed, a allai achosi strôc a phwl o isgemia dros dro.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 100 o gleifion, bu farw tri chlaf, ac roedd angen llawdriniaeth yn cynnwys toriad ychwanegol i reoli'r gwaedu yn ystod y driniaeth yn achos tri chlaf.

Roedd angen llawdriniaeth agored i reoli'r gwaedu o'r atodyn atrïaidd chwith yn dilyn triniaeth un claf yn yr astudiaeth o 15 o gleifion.

Newidiwyd y math o driniaeth i lawdriniaeth agored gan rannu asgwrn y fron mewn un claf oherwydd meinwe craith ddifrifol yn y gofod o amgylch yr ysgyfaint (adlyniadau pliwrol) yn yr astudiaeth o 30 o gleifion, ac roedd angen draenio'r aer yng ngheudod y frest yn achos dau ar ôl tynnu offer draenio'r frest.

Nodwyd achos o aer yn gollwng am gyfnod hir mewn un claf a chafodd un claf arall boen difrifol yn ei frest yn yr astudiaeth o 15 o gleifion.

Cafodd un claf mewn astudiaeth o 81 o gleifion drawiad ar y galon gan wella o fewn 12 diwrnod.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Dywedodd y cynghorwyr fod methu â chau'r atodyn atrïaidd chwith yn gyfan gwbl a phoen nerfau yn sgîl y toriadau ymhlith y problemau posibl.

Rhagor o wybodaeth am ffibriliad atrïaidd

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ffibriliad atrïaidd, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Chau'r atodyn atrïaidd chwith yn thoracosgopig (gydag abladiad llawfeddygol ai peidio) ar gyfer ffibriliad atrïaidd nad yw'n ymwneud â'r falfiau er mwyn atal thrombo-emboldd'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn

www.nice.org.uk/guidance/HTG266

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon gan gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N2578).

Mae gan wefan NICE wasanaeth darllen sgrîn a elwir yn Browsealoud sy'n eich galluogi i wrando ar ein canllawiau. Cliciwch ar logo Browsealoud ar wefan NICE i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 266

ISBN 978-1-4731-8444-2

N2578 POD 1P Mehefin 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.